OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1486

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2015

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau'n gymwys o ran Cymru ond nid ydynt yn gymwys o ran adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar y dyddiadau canlynol—

(a) y rheoliad hwn, rheoliadau 2, 3, 4(a) a'r Atodlen ar 31 Gorffennaf 2015; a

(b) rheoliad 4(b) ar 31 Rhagfyr 2015.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "adeilad ynni a eithrir" yr ystyr a roddir i "excepted energy building" gan yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**1**).

Diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010

2. Mae Rheoliadau Adeiladu 2010(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn lle'r Tabl yn Atodlen 3 (cynlluniau hunanardystio ac esemptiadau o'r gofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu i adneuo cynlluniau llawn) rhodder y Tabl fel y'i nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

4. Yn rheoliad 43(4) (profi pwysedd)—

(a) ar ôl "the British Institute of Non-Destructive Testing" mewnosoder ", the Independent Airtightness Testing Scheme Limited(**3**)"; a

(b) hepgorer "the British Institute of Non-Destructive Testing,".

Carl Sargeant
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

7 Gorffennaf 2015

(**1**) O.S. 2009/3019. Trosglwyddodd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 swyddogaethau penodol a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan neu o dan Ddeddf Adeiladu 1984, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Weinidogion Cymru. Darparodd erthygl 3(a) o'r Gorchymyn na throsglwyddwyd swyddogaethau i'r graddau yr oeddynt yn arferadwy mewn perthynas ag adeilad ynni a eithrir fel y diffinnir "excepted energy building" gan yr Atodlen i'r Gorchymyn.

(**2**) O.S. 2010/2214; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2011/1515, O.S. 2012/718, 2012/3119, O.S. 2013/747 (Cy. 89), O.S. 2013/1105, O.S. 2013/2621 (Cy. 258), O.S. 2014/2362 ac O.S. 2015/767. Nid yw diwygiadau eraill yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Cwmni a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd o dan y Deddfau Cwmnïau â'r rhif cofrestru 09309058.